# GweithdaiAber:
## Ieithoedd Modern

**Dod â'n harbenigwyr academaidd at eich dysgwyr**




1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Beth yw GweithdaiAber?

**Mae GweithdaiAber yn rhoi cyfle i'ch dysgwyr gael trafod â'n staff academaidd cyfeillgar a chael eu dysgu ganddynt.**

Bydd ein staff yn trafod deunydd safonol yn y pwnc, ac yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mwy am y maes, y nod hefyd yw eu hannog i ystyried mynd ymlaen i astudio Ieithoedd Modern ac ystadegaeth yn y dyfodol.

Mae gennym amrywiaeth o ddarlithoedd/gweithdai â gogwydd academaidd iddynt i'w cynnig mewn nifer o wahanol bynciau. Er na ellir gwarantu y bydd pob gweithdy wastad ar gael, mae GweithdaiAber yn hyblyg:

- **Gallwn eu hamrywio o ran eu hyd**
- **Maent yn addas i gynulleidfaoedd bach neu fawr**
- 12-13 **Cyflwynadwy i grŵpiau blwyddyn 12-13**
- **Ar gael dros y we**
- **Ar gael wyneb-yn-wyneb yn yr ysgol neu'r coleg**
- **Ar gael ar gampws Prifysgol Aberystwyth**
- **Ar gael i ddysgwyr heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y pwnc, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb yn y maes. Nid oes rhaid i ddysgwyr fod yn astudio'r Ieithoedd Modern yn yr ysgol neu'r Coleg**

i I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**

# Cyflwyniad i'r Adran Ieithoedd Modern

**Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau i astudio Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg ac Eidaleg, naill ai'n rhaglenni anrhydedd sengl.**

Mae Aberystwyth yn un o lond llaw o brifysgolion yn y Deyrnas Unedig sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio cyfuniad o dair iaith, hyd yn oed o lefel dechreuwyr. Hefyd, gallwch gyfuno eich astudiaeth o iaith ag ystod eang o bynciau eraill, gan gynnwys y Gyfraith, Busnes Saesneg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Drama a nifer o bynciau eraill.

Mae ein haddysgu yn cael ei lywio gan ein hymchwil o ansawdd uchel, ac rydym yn datblygu ffyrdd arloesol o wneud dysgu ieithoedd yn yr ystafell ddosbarth yn ddeniadol a chyffrous. Yn fwyaf diweddar daethom yn 3ydd yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, yn 1af am Adborth ac yn 4ydd am y Dysgu ym maes Ieithoedd yn Nhabl Cynghrair y Guardian 2024. Rydym hefyd yn perfformio'n dda yn gyson yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr bob blwyddyn.

Yn ogystal â chael eich amgylchynu gan yr iaith yn yr Adran, byddwch yn cael eich trochi'n llawn yn niwylliant eich dewis iaith yn ystod eich Blwyddyn Dramor yn eich trydedd flwyddyn. Byddwch yn dod adre gyda gwybodaeth a hyder amhrisiadwy.



# GweithdaiAber
# Ieithoedd Modern

## Ffoaduriaid a ddihangodd rhag Sosialaeth Genedlaethol: Dysgu oddi wrth y Gorffennol i Lywio'r Dyfodol - Dr Andrea Hammel

EN MP Rh

Bydd y sgwrs hon yn canolbwyntio ar ddynion, menywod a phlant a oedd yn gorfod ffoi rhag erledigaeth gan y Natsïaid, yn enwedig ar y rhai a geisiodd noddfa yn y Deyrnas Unedig. Byddwn yn trafod eu straeon bywyd a sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y llyfrau a'r gweithiau celf a grëwyd ganddynt ar y pryd. Sut mae'r ffoaduriaid hyn yn cael eu cofio heddiw? Beth allwn ni ei ddysgu oddi wrth y rhan hon o hanes yr Almaen i lywio'r dyfodol?



## Chwyldro Cuba: proses barhaus - Dr Guy Baron

EN MP Rh

Mae Chwyldro Cuba 1959 yn cael ei weld gan rai pobl fel digwyddiad untro pan wnaeth Fidel Castro a Che Guevara fwrw allan yr unben Ciwbaidd, Batista. Ond mae Cuba wedi bod yn cynnal chwyldro byth ers hynny ac mae'n dal i fynd ymlaen heddiw. Mae'r sgwrs hon yn trafod beth oedd y Chwyldro yn ei olygu i bobl Cuba a sut mae wedi newid eu bywydau, er gwell ac er gwaeth. Mae'n ymdrin â sut y dechreuodd y Chwyldro, sut y newidiodd gymdeithas Cuba a sut mae'n edrych heddiw.

## Iaith Drama Almaeneg ar ddiwedd yr 20fed ganrif - Dr Alex Mangold

EN MP Rh

Bydd y sgwrs hon yn edrych ar enghreifftiau o ddrama Almaeneg trwy gyfrwng iaith, athroniaeth a phersonoliaeth. Mae'n cyflwyno testunau a datblygiadau dramatig eiconig yn theatr a pherfformio'r Almaen, gan ddechrau gyda DER BESUCH DER ALTEN DAME Friedrich Durrenmatt (1956) a gorffen gyda BIER FUER FRAUEN Felicia Zeller (2000).

## "Me se ha rompido el español": camgymeriadau nodweddiadol wrth ddysgu Sbaeneg - Mr. Fernando Castellano-Bañuls

EN MP Rh

Nod y gweithdy hwn yw mynd trwy gamgymeriadau nodweddiadol y mae dysgwyr Sbaeneg yn eu gwneud mewn rhai meysydd iaith (gramadeg, sgwrsio, cyfieithu). Byddwn yn dysgu adnabod y camgymeriadau, eu datrys a sut i ddysgu oddi wrthynt. Mae'r gweithdy hwn yn cynnig dull cadarnhaol o ymdrin â chamgymeriadau a fydd yn helpu i wella proses dysgu iaith y myfyrwyr, a bod yn fwy parod ar gyfer eu harholiadau yn y dyfodol.

**Allwedd:**

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

## Merched yr Avant-Garde Sbaeneg: Traddodiad Heriol – Dr Jennifer Wood

EN MP Rh

Wrth feddwl am yr avant-garde Sbaenaidd, daw sawl enw enwog i'r meddwl – Pablo Picasso, Salvador Dalí, Luis Buñuel, Federico García Lorca ac yn y blaen. Ond lle mae'r menywod yn y rhestrau hyn? Roedd menywod yn rhan annatod o'r sîn greadigol gyfoes, ond mae eu presenoldeb wedi cael ei ddiystyru.

Bydd y sesiwn hon yn edrych ar ddylanwad cymdeithasol-ddiwylliannol a chreadigol menywod y cyfnod hwn, gan gynnwys y mudiad sinsombrista a gwaith Maruja Mallo, Concha Méndez a Lucía Sánchez Saornil.

## Cyflwyniad i Annie Ernaux - Dr Gábor Gelléri

EN MP Rh

Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar waith Annie Ernaux, enillydd Gwobr Nobel 2022 am Lenyddiaeth.

Byddwn yn ystyried ei hymgysylltiad â themâu rhywedd, dosbarth ac addysg; gwreiddioldeb ei harddull ysgrifennu syml; ac addasiad o'i gwaith ar gyfer y sgrin fawr.

## Trefedigaethu, Mewnfudo, Integreiddio – Dr Gábor Gelléri

EN MP Rh

Bydd y sesiwn yn asesu'r cwestiwn o integreiddio cymunedau mewnfudwyr fel y'u cynrychiolir mewn amrywiaeth o destunau, ffilmiau a chaneuon. Byddwn yn ymdrin â phrif gyfnodau gwladychiad Ffrainc a mewnfudo i Ffrainc, cyn troi tuag at gynrychiolaeth artistig mewnfudo, gan newid mewn amser, mewn ffurf, yn ogystal ag mewn ardaloedd daearyddol a gwmpesir.

## Allwedd:

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

## Pam mae gan yr iaith Ffrangeg gymaint o amserau?! – Julie Duran-Gelléri

EN MP Rh

Mae myfyrwyr yn aml yn cael eu rhwystro gan y nifer llethol o rediadau yn Ffrangeg... Pam mae cymaint o amserau?! Bydd y sesiwn hon yn rhoi golwg gyflawn ar rediadau berfau Ffrengig, i egluro sut mae'r system yn gweithio a pham mae'n helpu i fynegi elfennau pwysig o ystyr. Byddwch hefyd yn dysgu awgrymiadau a thriciau i'w gwneud hi'n llawer haws eu cofio a'u defnyddio - a byddwch yn dysgu'r gyfrinach i'r imparfait a passé composé!






Yr Adran Ieithoedd Modern,
Prifysgol Aberystwyth,
Adeilad Hugh Owen,
Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3DY

+44 (0)1970 62 1537
modernlangs@aber.ac.uk
/ModLangsAber

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan
Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth, 2025.

112786-01.25
Delweddau: freepik.com/stories